



Deall eich canlyniadau

Mae'r Adroddiad Canlyniadau yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol i'ch helpu i ddeall sut rydym wedi cyfrifo canlyniadau eich myfyrwyr, a'r data rydym wedi'u defnyddio wrth gyfrifo. Rydym wedi darparu rhywfaint o ddata ar lefel canolfan ac ymgeisydd, a ddisgrifir isod.

Rydym wedi safoni graddau gan ddefnyddio prosesau ystadegol a ddatblygwyd gan CBAC ac a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru.

Data ar Lefel Canolfan

Mae'r data ar lefel canolfan yn dangos dosraniad graddau eich canolfan ar gyfer pob ffynhonnell o dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo graddau eich myfyrwyr. Rydym wedi cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf tablau a graff.

Data hanesyddol: canlyniadau eich canolfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf

Ar gyfer cymwysterau UG, rydym wedi defnyddio canlyniadau eich canolfan yn y cymwysterau diwygiedig yng nghyfresi Mehefin 2017, 2018 a 2019 i 'safoni' eich graddau asesu canolfannau. Yn yr adran hon, rydym wedi darparu dosraniad graddau eich canolfan yn y pwnc hwn.

Ar gyfer Safon Uwch, rydym wedi defnyddio sgorau GMU unedau UG wedi'u bancio ymgeiswyr 18 mlwydd oed, ynghyd â graddau asesu canolfannau a'r drefn restrol a ddarparwyd gennych chi, i gyfrifo graddau. Mae data hanesyddol eich canolfan wedi'u darparu er gwybodaeth.

Os yw eich canolfan yn cofrestru ar gyfer y pwnc hwn am y tro cyntaf (gydag unrhyw fwrdd) yna bydd y tabl hwn yn wag.

Graddau asesu canolfannau (2020)

Mae hwn yn dangos dosraniad graddau asesu canolfannau a gyflwynwyd gennych.

Addasu cyrhaeddiad blaenorol

Ar gyfer cymwysterau UG, defnyddiwyd newidiadau yng nghyrhaeddiad blaenorol eich myfyrwyr o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol i addasu'r graddau a ddyfarnwyd i'ch myfyrwyr. Mae rhif positif yn dynodi cynnydd mewn cyrhaeddiad blaenorol. Mae'r addasiad yn cyfrif am gyfran yr ymgeiswyr y gellid eu cyfateb â'u cyrhaeddiad blaenorol yn 2020 ac mewn blynyddoedd blaenorol.

Sylwer, ni fydd ychwanegu'r addasiad cyrhaeddiad blaenorol at y data hanesyddol (canlyniadau eich canolfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf) o reidrwydd yn adio i roi eich graddau wedi'u cyfrifo terfynol. Y rheswm dros hyn yw, er enghraifft, efallai fod y graddau wedi'u cyfrifo terfynol wedi'u haddasu i gyfrif am faint eich cofrestriad, ac addasiadau i ddeilliannau'n genedlaethol.

Os nad oedd modd i ni gyfateb unrhyw rai o'ch myfyrwyr i ddata cyrhaeddiad blaenorol, bydd y tabl hwn yn wag.

Graddau wedi'u cyfrifo (2020)

Dyma ddosraniad y graddau wedi'u cyfrifo terfynol ar gyfer eich canolfan. Dyma'r canlyniadau a fydd yn ymddangos ar dystysgrifau eich myfyrwyr.

Data ar Lefel Ymgeisydd

Ar gyfer pob ymgeisydd, gallwch weld y radd asesu canolfannau a'r drefn restrol a gyflwynwyd gennych, ynghyd â'r radd wedi'i chyfrifo derfynol.